Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* Mr R O'Neil

12.02.26

Yr Eisteddfod Ysgol 2026

Bydd Eisteddfod yr Ysgol yn digwydd ar yr 2il o Fawrth. Gofynnwn yn garedig i'r plant wisgo lliw eu llys y diwrnod hwnnw felly **Dyfodwg**, **Gwynno** neu **Illtyd**.

Bydd y plant yn dysgu darn canu a llefaru yn y dosbarthiadau fel rhan o'r gwersi Celfyddydau Mynegiannol ac ar ddydd Gwener y 27ain bydd Eisteddfod ddosbarth yn cael ei chynnal. Gan y bydd disgyblion Blwyddyn 5 yn Ysgol Llanhari y diwrnod hwnnw, bydd Miss Jones a Mrs Jenkins yn gwneud trefniadau gyda'r plant. Yna, bydd 3 o bob blwyddyn yn cael eu dewis i berffomio yn yr Eisteddfod Ysgol. Byddwn hefyd yn cwblhau gwaith ysgrifennu ac arlunio ar gyfer yr Eisteddfod yn y dosbarthiadau.

Yn ychwanegol, os hoffai eich plentyn gymryd rhan yn y cystadlaethau canlynol bydd angen iddynt baratoi yn y tŷ a bod yn barod i berfformio ar yr 2il:

- Dawns unigol (unrhyw arddull, perfformiad i gerddoriaeth Gymraeg /offerynnol o dan 3 munud)
- Unawd offerynnol
- Adrodd jôc ddoniol (yn y Gymraeg)

Mae cystadlaethau gwaith cartref ychwanegol hefyd i bob un gael y cyfle i arddangos eu talentau:

- Pobi - cacen/cacennau ar thema 'Cymru' (dewch â nhw i'r ysgol ar yr 2il)
- Talent trisant - (ffilmiwch fideo o'ch plentyn yn perfformio'r dalent ac anfon at e-bost ddosbarth eich plentyn erbyn y 27ain o Chwefror)
- Ffotograffiaeth - Tynnu un llun gyda chamera ar thema 'fy milltir sgwâr' – gellid printio y llun neu yrru ar e-bost
- Lip-sync - i gân Gymraeg o'ch dewis (ffilmiwch fideo o'ch plentyn yn perfformio'r 'lip-sync' ac anfon at e-bost dosbarth eich plentyn erbyn y 27ain o Chwefror)

DOLEN: Yr Eisteddfod The Eisteddfod | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Diolch,
Mrs Morrish a Miss Williams

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.yggglantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

12.02.26

The School Eisteddfod 20026

The School Eisteddfod will take place on the 2nd of March. We kindly ask the children to wear the color of their court that day so Dyfodwg, Gwynno or Illtyd.

The children will learn a singing and speaking piece in the classes as part of the Expressive Arts lessons and on Friday the 27th a class Eisteddfod will be held. As Year 5 will be in Ysgol Llanhari this day, Miss Jones and Mrs Jenkins will arrange the Year 5 Eisteddfod following discussion with the pupils. Then, 3 from each year will be chosen to perform in the School Eisteddfod. We will also complete writing and drawing work for the Eisteddfod in the classes.

In addition, if your child would like to take part in the following competitions they will need to prepare at home and be ready to perform on the 2nd:

- *Solo dance (any style, performance to Welsh / instrumental music under 3 minutes)*
- *Instrumental solo*
- *Tell a funny joke (in Welsh)*

There are also additional homework competitions for everyone to have the opportunity to showcase their talents:

- *Baking - 'Wales' themed cake/cakes (bring them to school on the 2nd)*
- Trisant talent - (film a video of your child performing the talent and send to your child's class email by the 27th of February)
- Photography - Take one photo with a camera on the theme of 'my square mile' - the photo could be printed or emailed
- Lip-sync - to a Welsh song of your choice (film a video of your child performing the 'lip-sync' and send to your child's class email by the 27th of February)

LINK: Yr Eisteddfod The Eisteddfod | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Many thanks,
Mrs Morrish and Miss Williams